THE TRUST FOR WELSH ARCHAEOLOGY

YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEG CYMRU

Heneb

# Gwasanaethau Maes Archaeolegol




DROS HANNER CAN MLYNEDD O ARBENIGEDD ARCHAEOLEGOL, YN EICH ARWAIN DRWY BOB CAM - O GYDYMFFURFIO AG AMODAU CYNLLUNIO HYD AT LWYDDIANT Y PROSIECT.

# Amdanom Ni

Mae tîm Gwasanaethau Maes Heneb yn cynnig ystod lawn o wasanaethau archaeolegol – o gofnodi adeiladau i waith cloddio. Rydym yn gweithio'n agos gyda datblygwyr, perchnogion tir a chymunedau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau, gan ddiogelu a chofnodi amgylchedd hanesyddol cyfoethog Cymru ar yr un pryd, ac ymwreiddio gwerth cymdeithasol ar bob cam.






# Trosolwg

Heneb yw'r prif ddarparwr gwasanaethau archaeolegol a threftadaeth yng Nghymru. Ffurfiwyd Heneb yn 2024 drwy uno pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru, ac mae'n cyfuno dros bum degawd o arbenigedd ym maes archaeoleg a rheoli treftadaeth.

Gyda swyddfeydd rhanbarthol ym mhob cwr o Gymru, mae Heneb yn cyflogi tîm ymroddedig o weithwyr proffesiynol sydd wedi ymrwymo i ymchwilio i amgylchedd hanesyddol y wlad, ei ddeall a’i ddiogelu. Mae ein gwybodaeth ranbarthol, ynghyd ag ymrwymiad i ragoriaeth ac arloesedd, yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau ymatebol o ansawdd uchel sydd wedi'u teilwra i anghenion unigryw pob prosiect.

Rydym yn cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau archaeolegol ac ymgynghori i gefnogi datblygiadau yn y sector cyhoeddus yn ogystal â’r sector preifat.

Rydym yn cydweithio’n agos gyda datblygwyr, perchnogion tir a chymunedau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau, gan ddiogelu a chofnodi amgylchedd hanesyddol cyfoethog Cymru ar yr un pryd.

Mae Heneb yn sefydliad annibynnol, yn elusen gofrestredig (504616) ac yn gwmni cyfyngedig (1198990). Rydym wedi ymrwymo i ymchwilio i amgylchedd hanesyddol cyfoethog Cymru, i’w ddiogelu a'i hyrwyddo.

Ein cenhadaeth yw meithrin dealltwriaeth ddyfnach o orffennol Cymru, dathlu ei hanesion diwylliannol amrywiol, a sicrhau bod cenedlaethau’r dyfodol yn gallu cysylltu â’u treftadaeth.

Mae Heneb yn Sefydliad sydd wedi cofrestru â Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr.



# Ein Gwasanaethau

GWASANAETHAU MAES ARCHAEOLEGOL

Mae Heneb yn darparu amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau archaeolegol i helpu datblygwyr, perchnogion tir a sefydliadau i fodloni gofynion archaeolegol sy'n benodol i brosiect. O dirweddau cynhanesyddol i safleoedd treftadaeth ddiwydiannol, mae ein tîm profiadol yn cynnig atebion sy'n ymwybodol o faterion masnachol ac yn sensitif i gyd-destun unigryw pob prosiect.

Rydym yn cydweithio'n agos â datblygwyr i gyflawni nodau o ran y gyllideb a'r amserlen, gan ymdopi’n effeithiol ag unrhyw ddarganfyddiadau annisgwyl. Mae Heneb yn cynnig cymorth o'r cam cynllunio cychwynnol hyd at yr adroddiad terfynol, ac yn sicrhau bod cleientiaid yn gallu bodloni gofynion cynllunio yn hyderus.

Rydym yn gweithredu ym mhob cwr o Gymru a’r tu hwnt, ac yn sicrhau bod archaeoleg yn hygyrch, yn effeithlon ac wedi'i theilwra i anghenion eich prosiect.

# Cynnwys


- Gwaith Cofnodi a Monitro Archaeolegol (Briffiau Gwylio)
- Gwerthusiadau Archaeolegol
- Gwaith Cloddio Archaeolegol
- Arolygon Geoffisegol
- Cofnodi Adeiladau Hanesyddol
- Asesiadau Desg
- Ymgynghori
- Modelu 3D a Cherbydau Awyr Di-griw (UAV)
- Ymgysylltu ac Allgymorth
- Paneli a Byrddau Dehongli
- Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol







# Gwaith Cofnodi a Monitro Archaeolegol (Briffiau Gwylio)

Mae ein gwasanaeth Cofnodi a Monitro Archaeolegol, neu'r Briff Gwylio, yn darparu gwasanaeth monitro archaeolegol ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu i gofnodi unrhyw ganfyddiadau annisgwyl heb amharu ar eich prosiect. Mae tîm arbenigol Heneb yn sicrhau bod yr holl ddarganfyddiadau'n cael eu cofnodi i'r safonau uchaf posibl, gan eich helpu i fodloni gofynion cynllunio a diogelu treftadaeth werthfawr ar yr un pryd.

Dysgwch ragor




# Gwerthusiadau Archaeolegol

Mae Gwerthusiad Archaeolegol yn ymchwiliad cychwynnol sy'n helpu i bennu presenoldeb, natur a maint olion archaeolegol ar safle, a gynhelir yn aml cyn i'r datblygiad ddechrau. Nod y gwerthusiad yw datgelu ac asesu unrhyw nodweddion, strwythurau neu ganfyddiadau archaeolegol yn yr ardal darged, gan arwain penderfyniadau ar gadwraeth a gofynion cynllunio pellach.

Dysgwch ragor




# Gwaith Cloddio Archaeolegol

Mae Gwaith Cloddio Archaeolegol, y cyfeirir ato weithiau fel Stripio, Mapio, Cofnodi, yn ymchwiliad manwl o olion archaeolegol, a gynhelir yn aml fel mesurau lliniaru archaeolegol cyn datblygu. Mae gwaith cloddio'n golygu gwaith archaeolegol gofalus a rheoledig mewn ardaloedd penodol lle mae dyddodion archaeolegol sylweddol yn hysbys neu'n ddisgwyliedig. Y nod yw archwilio, cofnodi a chadw gwybodaeth archaeolegol werthfawr yn systematig cyn eu tynnu.

Dysgwch ragor




# Arolygon Geoffisegol

Mae ein Harolygon Geoffisegol yn cynnig dulliau anymwthiol i ganfod a mapio nodweddion archaeolegol o dan y ddaear. Gan ddefnyddio gradiometreg a gwrthedd, rydym yn helpu cleientiaid i asesu potensial safle gan darfu cyn lleied â phosibl.


Dysgwch ragor




# Cofnodi Adeiladau Hanesyddol

Mae Cofnodi Adeiladau Hanesyddol yn wasanaeth arbenigol sy'n dogfennu adeiladau neu strwythurau sydd ag arwyddocâd hanesyddol, pensaernïol neu archaeolegol, yn enwedig y rhai sy'n wynebu cael eu hailddatblygu neu sydd mewn perygl oherwydd achosion eraill. Mae'r broses hon yn sefydlu cofnod o gymeriad, hanes, dyddiadau, ffurf a datblygiad yr adeilad, gan gadw gwybodaeth werthfawr a allai fel arall gael ei cholli.

Dysgwch ragor




# Asesiadau Desg

Mae ein gwasanaeth Asesiad Desg yn darparu adolygiad manwl o gofnodion hanesyddol i asesu adnoddau treftadaeth mewn ardal i'w datblygu. Mae'r gwasanaeth hwn, a ddefnyddir yn aml mewn Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth a'r Amgylchedd, yn helpu cleientiaid i ddeall potensial archaeolegol safle ac i gynllunio'n gyfrifol.

Dysgwch ragor




# Ymgynghori Archaeolegol

Mae ein Gwasanaethau Ymgynghori yn rhoi cyngor ar faterion treftadaeth ac archaeoleg yn ystod dyddiau cynnar prosiectau er mwyn lleihau'r risgiau a'u harwain drwy bob cam, gan roi cymorth dibynadwy ac ymarferol i ddatblygwyr, cynllunwyr a pherchnogion tir.

Dysgwch ragor




# Modelu 3D a Cherbydau Awyr Di-griw (UAV)

Mae ein gwasanaethau Sganio Laser, Ffotogrametreg a Cherbydau Awyr Di-griw (UAV) yn cynnwys cyfres o wasanaethau cofnodi cyflym sy'n ategu ein gwaith maes ar y safle, gan ddarparu gwell cyfleoedd i brosesu, cofnodi ac arddangos gwybodaeth.

Dysgwch ragor




# Ymgysylltu ac Allgymorth

Mae ein rhaglenni Ymgysylltu ac Allgymorth yn dod ag archaeoleg yn fyw. Drwy ddigwyddiadau, gweithdai a chyfleoedd addysgol sy'n cysylltu pobl â'u treftadaeth, ein nod yw gwneud gwerth cymdeithasol yn rhan o'n holl waith. Gallwn eich helpu i archwilio a dathlu straeon ein gorffennol cyffredin drwy brosiectau creadigol.

Dysgwch ragor




# Paneli a Byrddau Dehongli

Gall ein tîm mewnol baratoi cynnwys pwrpasol i ddiwallu anghenion cleientiaid a gofynion cynllunio, gan ddarparu cynnwys, delweddau a dyluniadau dwyieithog.

Dysgwch ragor

# Achrediad

Mae Heneb yn Sefydliad sydd wedi cofrestru â Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA), sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i'r safonau proffesiynol uchaf a'n harbenigedd amlwg.

Fel Sefydliad Cofrestredig, rydym yn cael ein harwain gan Aelodau Siartredig (MCIfA) ac yn cael ein cydnabod am ein gallu i ddarparu cyngor dibynadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth ac i weithio'n effeithlon, gan leihau ansicrwydd, oedi a chostau.

Mae ein tîm yn cynnal safonau moesegol a phroffesiynol CIfA, gan sicrhau gwasanaeth dibynadwy ym mhob prosiect.

CIfA Chartered Institute for Archaeologists



# Cysylltu

**AR GYFER YMHOLIADAU GWEINYDDOL A CHYFFREDINOL**

01558 823121

info@heneb.org.uk

**AR GYFER YMHOLIADAU AM WASANAETHAU MAES**

01248 366956

fieldservices@heneb.org.uk

# Ein Swyddfeydd






Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.